

'NAWR YW EI HAMSER HI :

(DRAMA UN ACT)

gan

ANNA PERCY DAVIS



PRIS

1/6

D.S.—*Rhaid cael caniatâd cyn chwarae'r gomedi hon.
Ymfynner â J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg
Gomer, Llandysul, Sir Aberteifi.*

'Nawr yw ei hamser hi.

[DILYS yn dod i mewn.]

MRS. LLOYD : 'Rwyt ti wedi dod o'r diwedd, 'te,
Dilys fach. Ti fuost yn hir iawn.

DILYS : Do, 'mam. Cwrddais â'r hen Athro, a
'doedd dim posib cael ei wared. Bum am dro hir
yn y car gydag 'e.

MRS. LLOYD : 'Roedd e'n falch dy weld ar ôl tri mis,
debyg iawn.

DILYS : Oedd. [yn chwerthin] 'Roedd e'n anfodlon
'mod i allan pan alwodd e' neithiwr. 'Rwy'n mynd
i'r Ginio gydag 'e heno. Mae e'n un sŵn am i mi
gwrdd â'i gyfaill, y nosfelydd.

MRS. LLOYD : Mae e' wedi siarad llawer yma am
John Gray, hefyd.

DILYS : A phrynais i ddim ffrwythau i chi wedi'r cyfan.
Dwedodd yr Athro y daw e â rhai i chi heno.

MRS. LLOYD : Mae e'n garedig iawn. [DILYS yn
tanio sigaret.] Paid a smocio, wir, Dilys. Gwyddost
y bydd Jane yn anfodlon iawn dy fod yn gwario ar
sigarets.

DILYS : Yr Athro roddodd 'nhw i fi. Llanwodd y
câs yma, chwarae teg iddo.

MRS. LLOYD : Ddylet ti ddim gadael iddo roi popeth
i ti, fel yna.

DILYS : Mae e'n gwybod am Jane. 'Does ryfedd ei
fod yn cymryd trugaredd arnaf i. [yn agor parcel].
Edrychwch beth a brynais i, Mam. On'd yw'r ffrog
fach yma'n bert? Digwyddais ei gweld yn siop
Morgan. Mae yn fy nharo i'r dim.

MRS. LLOYD : Ydi, mae pinc yn dy weddu di bob amser.

DILYS : A mae eisiau ffrogiau arnaf yn druenus. 'Does gen i ddim byd i'w wisgo.

MRS. LLOYD : Dilys, Dilys ! Beth oedd yr holl baciau a ddaeth adre ddoe, 'te ?

DILYS : Dim ond crugiau o bethau hen-ffasiwn wedi crynhoi er pan wyf yn y Coleg. [*Yn edrych ar ei ffrog newydd.*] 'Rwy'n leicio hon, ond fod eisiau ei chwtogi dipyn. [*Yn mynd at y fasged-wnio.*]

MRS. LLOYD : Ydi Jane wedi ei gweld ?

DILYS : Nag yw, eto. Pa wahaniaeth am Jane os y'ch chi'n fodlon i mi ei chael ? Gellid meddwl mai hi yw'r fam a chwithau'n neb . . . a 'dyw Jane yn cymryd dim diddordeb mewn dillad newydd. Efallai y byddaf innau'r un fath â hi yn ddeugain oed, ond 'rwy'n meddwl wir y dylwn gael pethau pert yn un-ar-hugain.

MRS. LLOYD : O'r gorau o'r gorau. Galw Letitia i ddod â glo ar y tân wir. [*LETITIA yn dod â glo.*] Dyma chi ar y gair Letitia. Mae hi wedi oeri a . . . [*LETITIA yn sarnu glo â'r rhaw gyda swm mawr.*]

DILYS : O dyna fwstwr. Edrychwch beth y'ch chi'n wneud, wnewch chi' ; sarnu'r glo ar y carped. A ble mae'ch capan chi, eto ? Beth ddwedais i'r bore 'ma ?

LETITIA : Dwedodd Miss Lloyd nad oedd dim raid i mi ei wisgo, am ei fod yn mynd ar dro o hyd.

DILYS : 'Chlywais i erioed y fath ddwli ! Ewch i'w 'nôl ar unwaith.

MRS. LLOYD : Gad iddi, Dilys.

DILYS : Na wna, wir. Cerwch Letitia.

LETITIA : Dyma fe yn fy mhoced (*yn ei dynnu allan*) os yw'n rhaid i mi ei wisgo.

DILYS : Yr arswyd ! Dyma drefen ar gapan. Gaf i ei osod i chi ? 'Does gennyh chi ddim clem. [*Yn*

gwneud.] Dyna chi 'nawr. Wyddys yn y byd pwy ddaw yma. Glanhaewch y carped cyn mynd at y tân.

MRS. LLOYD : Onibai fod dy Fodryb Tabitha i ffwrdd, byddai hi'n siŵr o ddod yma ar gyfer dy benblwydd, yfory. Mae hi'n dy leicio di.

DILYS : Ydi, 'rhen feuden, am fy mod mor debyg iddi hi—yn helpo ! Mae hi'n leicio gwledd penblwydd yn iawn, ond leiciodd hi ddim rhoi dim i mi erioed. [*Yn ei dynwared*] " Dilys fach, 'rown i wedi meddwl prynu " [*Yn ei llais ei hun*] o, pob math o ffrogiau i mi, ond, druan â fi ! Byddwn wedi fy ngwisgo fel Efa o ran ei meddyliau hi.

MRS. LLOYD : 'Nawr, 'nawr, Dilys !

DILYS : Mae'n eitha gwir. 'Fedyliodd hi erioed am agor ei phwrs, er cymaint sydd ynddo.

[*LETITIA yn chwerthin yn iachus.*] Byddwch ddistaw, Letitia. 'Rown i ddim yn siarad â chi.

MRS. LLOYD : Ddylet ti ddim siarad fel 'na o gwbl, Dilys.

[*Cloch y drws yn canu.*]

DILYS : Dyna rywun wedi dod. Cer'wch Letitia, ond dewch chi â gwybod pwy sydd yna cyn dweud 'mod i i mewn, cofiwch.

LETITIA : Gwnaf, Miss Dilys. [*Yn mynd.*]

DILYS [*o flaen y drych*] : Pwy sydd yna, wn i ! Mi âf i i'r llofft os mai rhywun i'ch gweld chi, 'mam, sydd yna.

MRS. LLOYD : Tebyg mai gwaith teipio i Jane sydd yna oddi wrth yr Athro. Mae e'n dod â rhyw waith iddi bob dydd, fynychaf.

[*Mae siarad mawr tuallan. Yna clywir LETITIA.*]

LETITIA [*Y tu allan*] : Arhoswch fanna wnewch chi, nes yr âf i ofyn iddi a yw hi i mewn. Hi fydd yn ynfyd os dewch chi ar ei thraws a hithau ddim i mewn. [*Yn ymddangos â'i chapan ar dro.*] Rhyw hen fenyw,

hyll, rhyfedda, sydd yna. Mae hi'n pallu dweud ei henw, ac yn pallu aros allan.

[MODRYB TABITHA yn dod i mewn.]

O, dyma hi!

DILYS : {Modryb Tabitha! Dyma syndod!

MRS. LLOYD : }Dewch ymlaen. Dewch ymlaen, Tabitha.

MODRYB TABITHA : Meddylais i na chawn i ddim dod o gwbl gyda'r creadur bach gwirion 'na.

LETITIA [*yn chwervthin*] : 'Ta' chi'n dweud mai Modryb Tabitha oe'ch chi! [*Yn chwervthin.*] 'Rwyf wedi clywed digon amdanoch chi. [*Yn chwervthin.*]

DILYS : Rhag c'wilydd i chi—yn siarad â phobol dierth—a—ac ymddwyn fel yna; ond 'does dim dysgu arnoch chi. Rhaid iddi gael mynd oddi yma, mam.

MRS. LLOYD : Na, sonia Jane ddim am ei gollwng.

DILYS : Glywsoch chi, Modryb Tabitha? Jane yw'r feistres yma, nid 'mam. Peidiwch anghofio hynny . . . Gaf i fynd â'ch hat a'ch cot?

MODRYB TABITHA : Cewch, wir. [DILYS yn gwneud]

Wel, sut y'ch chi Mary ers llawer dydd?

MRS. LLOYD : 'Rwy'n dal yn o debyg, diolch, ond i mi gael bod yn llonydd yn y gadair. 'Rych chithau'n iawn?

MODRYB TABITHA : 'Dwy byth yn caru achwyn, fel y gwyddoch. [DILYS yn dychwelyd.] Dewch ymlaen, Dilys fach. 'Rych chi'n bertach nag erioed, beth bynnag. Dod i'ch gweld chi wnes i'n bennaf.

DILYS : Da iawn, Modryb Tabitha. Pryd ddaethoch chi 'nôl?

MODRYB TABITHA : Dydd Mercher, a chlywais eich bod chi wedi gorffen yn y Coleg, ac 'rwy'n cofio bod eich penblwydd yfory, [*yn chwareus*] ac 'rwyf am [LETITIA'n codi oddi wrth ei gwaith, i wrando'n benagored] 'rwyf am roi cyngor neu ddau i chi ar ddechrau'ch gyrfa.

LETITIA : Ho! Dyna i gyd. 'Rown i'n meddwl . . .

DILYS : Cer'wch i'r gegin ar unwaith, groten.

LETITIA : O'r gorau, Miss Dilys, ond chi ddwedodd mai . . .

DILYS : Cer'wch.

[LETITIA yn mynd gyda chryn fustwr.]

MODRYB TABITHA : Gwyddoch mai chi, Dilys, yw fy ffafret i erioed. Yr ydych mor debyg i fi.

MRS. LLOYD : Nag ydi, wir, Tabitha, ddim tebyg i chi. Fe fyn Dilys wario'r geiniog olaf.

MODRYB TABITHA : O ran golwg, 'rwy'n feddwl.

MRS. LLOYD : O, efallai!

MODRYB TABITHA : Ac os yw Dilys yn un am wario, pwysica'n y byd iddi ofalu cychwyn ar y ffordd iawn i gael digon o fodd, ynte?

DILYS : Mi wn i nad oes dim yn well nag arian, beth bynnag, ond oes dim posib â'i gael yn y tŷ 'ma. Jane sy'n cadw'r pwrs.

MRS. LLOYD : 'Nawr Dilys, fe gest ti arian i brynu ffrog bert heddiw.

DILYS : Ond oedd dim diolch i Jane. Cael arian i brynu ffrwythau a phethau i chi, 'mam, wnes i, ond gan fod yr Athro wedi dweud y byddai ef yn dod â rheini, heno, prynais y ffrog fach yma. Saith a chwech gostiodd hi.

MODRYB TABITHA : O, yr Athro, ai e? Mae e'n dal yn ffyddlon o hyd, ydi e'? Mae'n dda 'na phrynais i ffrwythau i chi, Mary fach. Bum bron â phrynu sypyn mawr o grapes hyfryd i chi, ond, dyna fe, aent yn ofer, os yw'r Athro'n dod â rhai, hefyd. [*Yn mynd at y burdd ac yn helpu ei hunan o'r ffrwythau.*]

MRS. LLOYD : Ydi, mae'r Athro'n garedig iawn.

DILYS : 'Rych chi, Modryb Tabitha, yn lwcus i gael digon o arian.

MODRYB TABITHA : Fe gewch chithau ddigon ond i chi roi'ch meddwl ar hynny. 'Doedd eich tad—

ond 'roech chi'n rhy ifanc i'w gofio—'doedd e'n meddwl dim am arian. Gweithio'n galed ac ennill dim fynnai ef.

MRS. LLOYD : 'Roedd Mostyn yn ddyn da, Tabitha. Peidiwch . . .

MODRYB TABITHA : Byddai yn ddyn gwell pe bae wedi darparu ar gyfer ei deulu, goelia i, yn lle eu gadael heb ddim.

MRS. LLOYD : 'Dallsai Mostyn ddim help, druan !

MODRYB TABITHA : Gallsai help yn iawn—mynnu gadael ei swydd a mynd i bregethu ! Heblaw hynny, faint weithiodd e am ddim, gyda'r hen bapur hynny o dan ei olygiaeth ?

MRS. LLOYD : Mostyn wyddai orau, a . . .

MODRYB TABITHA : Twt !

MRS. LLOYD : Mae Rhagluniaeth wedi gofalu amdanom. 'Roedd hi'n dynn ar y dechrau, ond fu dim rhaid derbyn help gan neb . . .

MODRYB TABITHA : Wel, oedd dim disgwyl i mi . . .

MRS. LLOYD : Na, na, ond oedd Rhagluniaeth yn gofalu . . . gweld eisiau dim.

DILYS : Siaredwch dros och eich hunan, 'mam. 'Rwyf i wedi gweld eisiau digon o bethau.

MODRYB TABITHA : Rhaid i chi beidio sylwi ar eich mam â'i "gofal Rhagluniaeth." Gofalwch chi amdanoch eich hunan. Dyna fydd saffa i chi.

DILYS : 'Rwy'n ofni nad wyf i wedi fy stofi i weithio, Modryb Tabitha, er fod Jane yn un sŵn am i mi wneud. Ddof i byth yn gyfoethog, os na briodaf arian, 'rwy'n siŵr.

MODRYB TABITHA : Gofalwch wneud hynny, 'te.

DILYS : Gallaf addo na phriodaf ddyn tlawd, beth bynnag. Dyma Jane yn dod.

[JANE yn dod i mew'n.]

MODRYB TABITHA : Helo, Jane, sut y'ch chi ?

JANE : Da iawn, diolch, Modryb Tabitha.

MODRYB TABITHA : Siarad 'rown i 'nawr, gyda Dilys ynghylch priodi'n gyfoethog. Rhaid iddi beidio â bod yn hen ferch fel chi a minnau.

DILYS : Dim peryg, diolch.

JANE : Na, mae gan Dilys ddigon o feddwl am briodi, a phriodi arian, heb i chi ei chymell, Modryb. Byddai'n foethyn iddi feddwl am rywbeth arall, 'rwy'n tybio—meddwl am ennill, er enghraifft.

DILYS : Dyna hi, Modryb Tabitha. Ddoe y deuthum adre, a 'does dim taw ar Jane am i mi fynd i ennill.

JANE : Mae'n rhyfedd bod eisiau sôn am hynny, wedi i ti gael yr holl ysgol a choleg. Dymuno 'rwyf i dy fod wedi llwyddo yn dy arholiad, fel y gelli sefyll ar dy draed dy hunan, o'r diwedd.

MRS. LLOYD : Tewch 'nawr ferched ! Rhaid i Dilys gael tipyn o wyliau'n gyntaf Jane, ac yna, daw i ennill yn dda i ni.

DILYS : Mae Jane wedi ennill digon hyd yn hyn. Pam mae eisiau i bethau newid ?

MODRYB TABITHA : 'Does dim o'r ddawn at weithio gan bawb, Jane. Mae'n hawdd gweld wrth eich golwg chi, mai i waith y'ch galwyd chi.

MRS. LLOYD : Mae Jane yn gwneud yn dda yn ôl ei gallu, ond cofia di, Dilys, na chafodd Jane dy fan-teision di— gadael ysgol yn bymtheg oed i helpu dy dad gyda'i sgrifennu, druan !

MODRYB TABITHA : Ie, a mawr les a wnaeth ei holl sgrifennu i chi ! 'Chafodd e' ddim dimai goch erioed.

MRS. LLOYD : Do, do, Tabitha. 'Rwy'n cofio mor falch oeddem pan enillodd e ddwy gini am stori yn 'steddfod fawr y Bont, a . . .

MODRYB TABITHA : Twt !

JANE : Fe ddysgodd 'nhad y ffordd i mi i weithio, beth bynnag, a 'chydig o goleg fyddet ti, Dilys, wedi weld onibai hynny.

DILYS : 'Does dim eisiau i chi ddannod mai chi sy'n ein cynnal. Mae'n gywilydd i chi.

JANE : 'Ddanodais i erioed. 'Doedd dim byd yn falchach gen i na dy fod di wedi gallu cael coleg.

MRS. LLOYD : Nag oedd, wir, Dilys. Dim rhagor o siarad, ferched. Beth am de, Jane? Ydi hi ddim yn bryd te?

JANE : Ydi, bron â bod, mam, ond mae Letitia'n gorffen tipyn bach o waith i mi gyntaf.

MODRYB TABITHA : Letitia yw enw'r forwyn ofnadwy yna, ai e? Pam 'rych chi'n cadw rhyw greadur fel yna, Jane? 'Rwy'n deall nad yw Dilys na'ch mam am ei chadw.

JANE : Wel, ydi, druan, mae Letitia dipyn yn lletchwith. 'Rwy'n gwybod na fyddai yn taro nemor un. Dyna pam y cymerais drugaredd arni; ond erbyn hyn y mae wedi dod at fy llaw yn gwmws.

MODRYB TABITHA : O'n wir!

JANE : Ydi. Mae'n syndod fel y mae wedi dod i deipio. Teipio llythyr y mae hi'nawr, ond fe gaiff fynd at y te yn union.

DILYS : Dyna reswm dros gadw'r fath forwyn, ynte, Modryb? Beth bynnag a all hi wneud, all hi ddim gwneud tē. Fe gewch ei gweld yn tendio wrth y ford.

JANE : Fe gei di weithio tē, os yw'n well gennyt, Dilys. Chaiff Letitia ddim bod yn destun gwawd i ti.

DILYS : Na, wnaf i ddim te, wir, i borthi diogi Letitia.

MRS. LLOYD : Tewch, wir, ferched.

JANE : Mi âf i at y bwyd, 'nawr, mam.

MRS. LLOYD : O'r gorau Jane. Bydda' i'n falch i gael cwpanaid.

MODRYB TABITHA : A finnau hefyd. 'Rych chi, Jane, yn gwneud te blasus bob amser. Bum yn meddwl prynu rhai o'r teissenod hyfryd o siop y

Castell, ond 'rown i'n ofni'ch insyltio chi. Mae gennyh chi rywbeth gwell, 'rwy'n siwr.

JANE (*dan chwerthin*) : Mi wnaf fy ngorau, Modryb... a fydd dim blâs copor arno i chi!

(*JANE yn mynd*).

DILYS : 'Rych chi, Modryb, wedi gweld sut y mae arnaf i,—y caf fy ngyrru o gartre'n fuan iawn.

MRS. LLOYD : Na, na, Dilys fach. Paid â siarad fel yna.

DILYS : Bydd raid i mi chwilio am w'r cynted â medra i'te, neu fe wna Jane i mi fynd i ennill fy nhoc.

MODRYB TABITHA : Fydd dim rhaid chwilio'n galed goelia 'i, gyda'ch wyneb chi, Dilys.

MRS. LLOYD : Na fydd. Mae Oswald yma byth a beunydd yn holi ei hynt.

MODRYB TABITHA : O yn wir! A phwy yw Oswald?

DILYS : Peidiwch gwrando ar 'mam. 'Dyw Oswald yn ddim ond ffrind, a chaiff e' ddim dod yn ddim mwy, chwaith. Mae e'n dlotach na fi, os yw hynny'n bosibl.

MRS. LLOYD : 'Dyw e' naws tlotach nag oedd dy dad ym Moriah.

MODRYB TABITHA : Tewch, Mary! Gobeithio na fydd Dilys byth fyw fel hynny. Beth am yr Athro, Dilys? Mae e'n graig o arian. Ydi e'n gwneud cymaint ohonoch ag oedd e'?

MRS. LLOYD : Ydi, mae'n gwneud popeth iddi, o hyd. Edrychwch ar yr holl flodau a ddaeth e' yma neithiwr.

MODRYB TABITHA : Dyna'r dyn i chi, 'te, Dilys.

DILYS : 'Rwyf yn ddigon hoff o'r Athro... ond... 'rwy'n ei weld yn rhy hen.

MODRYB TABITHA : Hen, wir, mae e' ddeng mlynedd yn iau na mi, a ddwedai neb 'mod i'n hen.

DILYS : Wel, yr Athro gaiff e fod ynteu. 'Rwy'n gwybod y gallwn ei dwyllo ef i briodi pryd y mynnwyf.

- MODRYB TABITHA (*yn eiddigeddus*): Ha! 'nawr yw eich amser chi, Dilys. 'Does dim fel bod yn ifanc.
- DILYS: Fe gawn i bopeth gan yr Athro, onibai fod Jane yn anfodlon.
- MODRYB TABITHA: Jane, wir! Beth yw ei busnes hi?
- DILYS: Yr oedd e' am roi watsh aur i mi, y llynedd, pan ddeuthum i'm hoed, ond gwrthododd Jane ganiatau iddo. Mynnodd hi roi un i mi, edrychwch, un arian—wrth gwrs.
- MODRYB TABITHA: Mae Jane yn afresymgl.
- DILYS: Ydi. Mae am fod yn feistres ar bawb. 'Chaf i byth wr os y caiff hi ei ffordd.
- MRS. LLOYD: Mae Jane a minnau am i ti Dilys wyllo rhag tramgwyddo'r Athro. Wyt ti'n edrych dim am dorri calon dyn, 'rwy'n ofni.
- MODRYB TABITHA (*yn chwervthin*): 'Run fath â minnau! (*Chwervthin a mynd at y ffrwythau eto*).
- DILYS: Mae e'n mynd â fi yn y car i'r ginio fawr yn y *Queen's* heno.
- MODRYB TABITHA: Dyna i chi, wir! Chwar-aewch eich cardiau'n iawn, heno, ac yna fydd dim eisiau i chi ddioddef tafod Jane yn hir.
- DILYS: Dyna bechod nad oes gennyf ffrog newydd,
- MRS. LLOYD: Ble mae'r un bert hynny gefaist adeg Nadolig?
- DILYS: Mae e' wedi gweld honno o'r blaen, a . . . dyw hi ddim yn bert iawn.
- MRS. LLOYD: Ydi wir. Dangos hi i dy fodryb.
- MODRYB TABITHA: Fe welais i ffrog bert a fyddai'n eich taro chi i'r dim, pan own i ffwrdd—un sidan binc a rhubanau felfed. Dim ond tair gini oedd ei phris. Bum yn meddwl ei phrynu i chi.
- DILYS: Do fe, wir?
- MODRYB TABITHA: Do, 'merch i; ond meddyliais

- wedyn bod digon i'w cael gennyh chi, efallai, a mae dillad yn mynd mor hen-ffasiwn.
- MRS. LLOYD: Ydyn, wir. Cer' di lan i 'nôl yr un sydd gen 'ti, Dilys fach.
- DILYS: O'r gorau,—ond nid wyf yn ei leicio o gwbl. (*DILYS yn mynd*).
- MODRYB TABITHA: Trueni na fyddai ganddi ffrog newydd, hefyd. (*Ymhen eiliad daw JANE i mewn*).
- JANE: Mae te'n barod. Dewch 'nawr.
- MODRYB TABITHA: Aroschwch funud, nes daw Dilys 'lawr â'r ffrog sydd ganddi ar gyfer y Ginio, heno. Mae i fod yn amgylchiad neilltuol heno, 'rwy'n meddwl.
- JANE: Ydi, heno, am fod yr elw tuag at yr Ysbyty. 'Rwyf innau wedi addo mynd heno. Nid wyf byth yn arfer mynd, a byddai'n well gen i beidio mynd heno, hefyd—ond rhaid mynd, er mwyn yr Achos.
- MODRYB TABITHA: 'Dyw Dilys ddim yr un fath â chi, Jane. Mae hi'n ifanc, ac yn bert, ac yn mwynhau ciniawau, a dawnsiau a phethau o'r fath. 'Dyw hi ddim yn golygu bod yn hen ferch.
- JANE: Nag ydi, 'rwy'n deall.
- MODRYB TABITHA: 'Nawr yw ei hamser hi, a rhaid i chi ei chefnogi i fanteisio ar ei chyfle.
- JANE: 'Sylwais i ddim fod eisiau cefnogaeth arni, Modryb.
- DILYS (*yn dod i mewn*): Dyma'r ffrog, Modryb Tabitha, ond nid wyf yn ei leicio o gwbl.
- JANE: Gwisg un arall 'te, Dilys. Mae sawl un i'w cael gennyf. Dewch 'nawr, wir, neu bydd y te yn . . .
- DILYS: Te, te! Pa wahaniaeth am y te? Beth alla i wisgo heno?
- JANE: Ti wŷr orau Dilys.
- DILYS: Ond 'does gen i ddim—dim byd newydd. O Jane, rhowch fenthyg eich ffrog newydd i mi, heno, wir—os gwelwch yn dda, Jane.

JANE : Na wna, wir. Sut y gelli di ofyn y fath beth ?
Nid wyf i wedi cael un ffrog ginio ers blynyddau, a thithau wedi cael un bob blwyddyn oddiar 'rwyf yn y Coleg.

DILYS : Mae gen i reswm neilltuol dros bod ar fy ngorau, heno.

MODRYB TABITHA : A 'does dim chwant arnoch chi i fynd o gwbl, Jane. 'Nawr y dywedsoch hynny'ch hunan.

MRS. LLOYD : 'Nawr yw ei hamser hi, Jane.

JANE : Beth sydd arnoch chi i gyd, â'ch " 'Nawr yw ei hamser hi? " A beth yw dy reswm neilltuol di heno, Dilys ?

(*Distawruydd am ennyd*).

MODRYB TABITHA : Mi ddweda i wrthych chi, Jane. Mae gennym ni le i feddwl fod rhywun bach yn mynd i ofyn am law Dilys, heno.

JANE : O, sut ych chi'n meddwl hynny ?

MODRYB TABITHA (*yn chwertlin*) : Jane fach, mae Dilys a minnau yn deall yr arwyddion. Os wyf yn ddi-briod, rhaid i chi beidio â meddwl na ches i ddigon o gynhigion i ddeall yr arwyddion. Ha ha !

JANE : Ond mae'n rhaid iddi gael ffrog newydd !

DILYS : A pheth arall, ddywedais i ddim wrthych chi, Modryb, ond dywedodd yr Athro y byddai John Gray yn dod i'r Ginio heno. 'Rwyf am edrych . . .

MODRYB TABITHA : Beth, John Gray y nofelydd ?

DILYS : Ie, mae yr Athro yn gyfaill mawr iddo, ac y mae am i mi ei gyfarfod.

JANE : " John Gray " wir ! Bydd John Gray yn sylwi dim ar dy ffrog, gelli fentro.

DILYS : Dyna sut y mae Jane yn fy ngawdio bob amser.

MODRYB TABITHA : Peidiwch bod fel yna, Jane. Bydd yn dipyn o glod i Dilys i ddod i gyffyrddiad â dyn mawr fel John Gray.

JANE : Clod, wir ! Chi â'ch John Gray !

DILYS : Mae Jane yn bychanu pawb.

MODRYB TABITHA : Rhag cywilydd i chi, Jane,— dyn sydd â'i enw ar wefusau pawb. Mae e'n ddi-briod hefyd, 'rwy'n deall.

JANE : Dyna ddigon o reswm dros ei gyfarfod, ynteu !

MODRYB TABITHA (*gyda gwawd*) : Ydych chi'n *jealous*, Jane ? Efallai eich bod am fynd i'w weld eich hunan !

JANE (*yn codi ei llais*) : Nag ydw i, nag am glywed gair pellach amdano.

MODRYB TABITHA : 'Does dim cisiau tymer ddrwg, Jane.

JANE : Wel dewch at eich te.

DILYS : Ond a gaf i fenthyg eich ffrog, Jane ?

JANE (*gyda gwawd*) : . . . Wel . . . gan ei bod hi mor bwysig i ti . . . cei.

DILYS : O diolch yn fawr, Jane annwyl. Mi'ch cofia i chi am hyn eto.

MODRYB TABITHA : Dyna rywbeth 'nawr, Jane. Dewch Mary. Pwyswch arnaf i.

JANE : Tendia di Dilys y te. Mae popeth yn barod, ond mae'n rhaid i mi wneud tipyn bach o fusnes cyn te.

DILYS : O'r gorau, Jane. Cymrwch bwyll, Modryb Tabitha. 'Dall mam ddim mynd mor gyflym.

(*Hwy yn mynd, a JANE yn canu'r gloch. LETITIA'n dod i mewn*).

LETITIA : Chi ganodd y gloch, Miss Lloyd ?

JANE : Ie, Letitia. Mae'n rhaid i chi fynd â neges i'r Athro ar unwaith. Mae rhywbeth pwysig wedi digwydd.

LETITIA : Be sy'n bod ?

JANE : Alla i ddim mynd i'r Ginio, wedi'r cyfan.

LETITIA : Dim mynd ? Mae'n rhaid i chi fynd.

JANE : 'Rwyf wedi addo, 'rwy'n gwybod, ond allaf i ddim mynd.

LETITIA : 'Rych chi'n un â'ch gair bob amser, a mae'r Athro'n gwybod hynny.

JANE : Dyna pam na wna ffonio'r tro 'nawr. Rhaid i chwi fynd lawr ar eich beisicl i esbonio'n iawn sut y mae'n bod. Dwedwch nas gallaf fynd am . . . am (*yn chwerthin*) am fod Dilys wedi mynnu fy unig ffrog (*yn chwerthin eto*) i gwrdd â John Gray.

LETITIA (*yn chwerthin, yna'n difrifoli*) : 'Dych chi ddim wedi rhoi eich ffrog bert i Miss Dilys, os bosib !

JANE : Ydw wir. 'Does neb yma'n meddwl fod eisiau ffrog bert ar hen ferch ddeugain oed.

LETITIA : O Miss Lloyd, 'rych chi'n bert ofnadwy yn eich ffrog newydd, . . . a 'rych chi'n bert ofnadwy bob amser, hefyd.

JANE : 'Nawr 'nawr, Letitia ! Wel, dwedwch wrth yr Athro fod yn ddrwg gen i . . .

LETITIA : A mi fydd pawb yno hefyd ! 'Roedd Siwsi'r Queens yn dweud y bydd y lle'n llawn i gwrdd â John Gray, a fod llawer wedi methu cael lle.

JANE : Gorau gyd. Dyna oedd yr Athro'n obeithio—er mwyn yr Ysbyty.

LETITIA : Ie, ond i gwrdd â John Gray, a John Gray yn methu mynd . . . am fod Miss Dilys wedi gwisgo ei ffrog ! (*yn chwerthin*) 'Roedd Siwsi'r Queen's wedi addo y cawn i fynd i helpu heno, er mwyn i mi gael cip ar wynebaw'r bobol pan ddywedai'r Athro mai chi, Miss Lloyd annwyl, *yw* John Gray (*chwerthin*). Cerwch wir, Miss Lloyd.

JANE : Byddai'n hwyl iawn i chwi, Letitia, ond 'rwyf i wedi bod yn crynu digon wrth feddwl am y peth. 'Rwy'n methu deall sut y perswadiwyd fi i roi fy ngair.

LETITIA : Er mwyn yr Achos, Miss Lloyd fach.

JANE : Ie, ond y mae'n amhosib 'nawr, beth bynnag.

LETITIA : Rhaid i chi ddweud wrtho eich hunan, 'te, wir.

JANE : Alla i ddim gadael y tŷ cyn y daw'r post. Addawodd y Cyhoeddwy'r roi gwybod i mi heddiw'n ddi-ffael, a . . . a gwyddoch mor bwysig yw eu deddfryd y tro hwn.

LETITIA : Gwn yn iawn, ond gellwch fynd yn gysurus, ac mi gadwaf i'r llythyr yn sâff i chi. 'Rwy'n gwybod yn iawn beth fydd ynddo. Byddant yn falch iawn i gael eich llyfr.

JANE : O Letitia ! Gwyn fyd na fyddech yn dweud y gwir !

LETITIA : Ond yw'r Athro wedi dweud hynny ? A mae e'n iawn bob tro, a 'rwyf innau'n gwybod, hefyd, na fuodd dim cystal llyfr erioed.

JANE : Peidiwch rhagrithio, Letitia.

LETITIA : 'Rwy'n dweud y gwir ; a fi deipiodd e bob gair, yntefe ?

JANE : Ie, ie. 'Wnawn i ddim byd heboch chi, Letitia.

LETITIA : Dyna ddwl mae merched i feddwl am ddillad, a bechgyn, a hen ddwli fel yna, pan y gallent fod yn teipio llyfrau mawr ! Ond cer'wch chi 'nawr, Miss Lloyd.

JANE : O'r gorau. Cystal i mi fynd ynteu.

LETITIA : Ydi. Mi orffennaf i'r llythyrion ar ôl cymhennu tipyn man hyn.

JANE : Fydda i ddim yn hir.

(*Yn mynd*).

LETITIA : Yr hen scrwben â Dilys—yn meddwl dim am neb ond amdani ei hunan. . . Twt ! fe gaiff hi gymhennu yma ei hunan, os yw hi eisiau. Mi âf i at fy ngwaith.

(*Yn mynd. Ymhen eiliad clywir y Ffon yn galw. Rhuthra DILYS i mew'n a daw LETITIA yn wyllt wrth ei sawdl*).

DILYS (*yn siarad drwy'r Ffon*) : Yes, this is Miss Lloyd speaking.

LETITIA (*yn tynnu'r Receiver oddi-wrthi*) : Fi sydd i ateb hwnna. (*yn siarad yn Gymreigaidd*). No, no, I am speaking for Miss Lloyd. She has just gone out, and I will give a message when she comes back . . . yes, yes. Oh yes, yes.

DILYS (*yn gweiddi*) : Dewch â hwnna i fi.

LETITIA (*wrth DILYS*) : Caewch eich ceg, wnewch chi. (*drwy'r ffon*). O thank you very much. I will tell her . . . yes.

DILYS : Dewch ag e i fi, y groten haerllug !

LETITIA : Caewch 'ceg (*yn chwertthin drwy'r ffon*). Yes, yes, thank you . . . goodbye.

(LETITIA'N dawnsio gan lawenydd) O ! O ! O !

DILYS (*yn gweiddi*) : Yr hen un wirion â chi ! Mi gewch chi fynd oddi yma ar unwaith. 'Chewch chi ddim aros yma ar unrhyw gyfrif.

(TABITHA a MRS. LLOYD *yn dod i mewn*—TABITHA *ar hanner buyta teisen*).

MODRYB TABITHA : Be sy'n bod ? Be sy'n bod, Dilys fach ? Dyna fe, eisteddwch, Mary. Be sy'n bod Dilys ? 'Dallwn i ddim aros i orffen ein bwyd. Be mae Letitia'n wneud i chi ?

DILYS : Beth y'ch chi'n feddwl ? Fe dynnodd y Ffôn oddi wrthyf, a mynnodd siarad ei hunan, ar fy ngwae-tha'—y groten ddiwardd ; ond 'chaiff hi ddim aros yma—'chaiff hi ddim, tae beth ddywed Jane. Fe gaiff fynd . . .

LETITIA : 'Rwy'n golygu mynd. 'Fydda i ddim yn forwyn yma, nac yn unman arall, chwaith. Hwidiwch eich hen gapan. (*Yn ei daflu ati*).

DILYS } O, shwd beth erioed !

MODRYB TABITHA } Yr hen sgampen fach !

LETITIA (*yn chwertthin a dawnsio*) : Fydda i ddim yn forwyn byth ragor ! Ha, ha, ha.

DILYS (*mewn gwawd*) : Beth y'ch chi'n feddwl bod, yn enw dyn, os nad morwyn ? Oes priodas i fod ?

LETITIA : Oes, oes. Sut oech chi'n gwybod ?

(DILYS a TABITHA'N chwertthin gyda dirmyg).

DILYS : A phwy yw'r gwr lwcus ?

LETITIA : Yr Athro wrth gwrs.

DILYS : Beth !

MODRYB TABITHA : Celwydd golau ! Fe ddywed ei bod yn mynd gyda John Gray nesaf !

LETITIA : Ydw, ydw. 'Rwy'n mynd gyda John Gray hefyd.

MODRYB TABITHA : Bobol fach ! Nid celwydd ond colled ! Mae colled wyllt arni.

JANE (*yn dod i mewn heb ddiog ei het, etc.*) : Hawyr bach ! Beth yw'r twrw 'ma ? Troais 'nol i 'mofyn llythyr i'w bostio, a 'chefais i erioed y fath fraw. Be sy'n bod, dwedwch ?

(DILYS a TABITHA'N siarad ar draws ei gilydd).

DILYS : Letitia sydd wedi bod yn fy nhrin a 'nhrafod i.

MODRYB TABITHA : Mae colled wyllt ar Letitia.

DILYS : Mae'n rhaid iddi gael mynd ar unwaith.

MODRYB TABITHA : Ond mae hi yn mynd, Dilys fach, i briodi'r Athro.

DILYS : A John Gray, cofiwch, Modryb Tabitha.

JANE : Beth sy'n bod, Letitia ?

LETITIA : Miss Lloyd fach, mae popeth yn iawn. Daeth y neges drwy'r ffôn, a 'roedd Miss Dilys yn gwneud ei gorau i'w ateb (*yn chwertthin*) ond mi gariais i arni. Mae nhw'n falch iawn i gael y llyfr, ac fe gewch chi lythyr yfory.

JANE : O dyna dda ! Diolch byth !

LETITIA : A dwedwch wrthyn' nhw 'mod i'n iawn—na fydd dim eisiau i mi fod yn forwyn a gwisgo hen gapan, ragor.

JANE : Eisteddwch, Modryb Tabitha. Mae'n rhaid

i mi roi esboniad i chi i gyd, ond wn i ddim yn iawn sut y mae dechrau.

LETITIA : 'Ddwedais i ddim mai y *fi* sy'n mynd i briodi'r Athro.

JANE : Ond y *fi*.

MODRYB TABITHA : Beth, chi . . . yn priodi . . . yr Athro ?

JANE : Ie . . . ac yr wyf wedi addo mynd â Letitia gen i fel ysgrifennydd.

MODRYB TABITHA : Ysgrifennydd i'r Athro ?

LETITIA (*dan chwerthin*) : Nage, nage. Ysgrifennydd John Gray fydda' i.

DILYS : Be' ddwedsoch chi ?

MODRYB TABITHA : Hawyr bach ! Ydi'r ddwy wedi drysu ?

JANE : Efallai y dylwn fod wedi dweud wrthych chi, 'mam, o'r blaen, mae y *fi* yw John Gray. (*Pawb yn dangos syndod*). Ond yr o'wn yn gallu 'sgrifennu'n fwy rhydd, a chael mwy o lonydd pan nad oedd neb yn gwybod. . . . 'Nawr y cafodd Letitia glywed fod y Cyhoeddwr wedi derbyn fy llyfr newydd.

MRS. LLOYD (*bron a thorri i lawr*) : Jane fach . . . annwyl ! Dyna drueni . . . na fyddai . . . dy dad yma 'nawr ! . . . Mac Mostyn yn cael ei dalu . . . o'r diwedd, Tabitha . . . " yn dwyn ffrwyth . . . ar ei ganfed."

MODRYB TABITHA : Pwy feddyliai ! Jane, o bawb !

JANE : Peth rhyfedd na fydddech yn deall na allwn i byth gadw cartre fel hyn wrth deipio yn unig.

MRS. LLOYD : Beth oedd yr Athro yn wneud yma bob dydd ynteu ?

MODRYB TABITHA : Oes dim eisiau gofyn wir !

JANE : Fe oedd yn darllen fy ngwaith, ac yn fy nghymell ymlaen.

DILYS : Beth am 'mam a finnau, wedi i chi briodi ?

JANE : Bydd arian y llyfr newydd i chi 'mam. Neges y Ffôn heno sydd wedi penderfynu tynged yr Athro a

minnau. Yr wyf wedi gwrthod priodi nes eich bod chi 'mam yn annibynnol. Fydd dim eisiau i'r Athro eich cynnal chi, o gwbl.

MRS. LLOYD : Da 'merch i ! Da 'merch i 'to ! Dy dad sy'n fy nghynnal i o hyd. Fe sy'n cydio'n dy law . . . Mae'r Gair yn eitha' gwir, Tabitha—" Ti â'i cei ar ôl llawer o ddyddiau."

(*Cloch y drws yn canu mewn modd arbennig. LETITIA yn mynd i'w ateb*).

DILYS : Mi âf i i'r drws, Letitia. Oswald sydd yna. Bydd cystal i mi fynd gydag ef i'r Ginio . . . (*wrth y drws*) a'r hen ffrog yna mae e'n leicio. Gellwch chi Jane wisgo'ch ffrog newydd wedi'r cyfan.

MRS. LLOYD (*a'i meddwl braidd yn gymysglyd*) : Gall, gall. 'Nawr yw ei hamser hi.